

MANTELL

NEWYDDLLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 37
Mehefin 2007

CYNNWYS

Newyddion 2

Grantiau 4

Biwro
Gwirfoddolwyr
Gwynedd 5

Digwyddiadau
a Hyfforddiant 6

Iechyd, Gofal
Cymdeithasol a
Lles 7

Cymunedau'n
Gyntaf 8

Agoriad Swyddogol Cae'r Gors

Croeso i Gae'r Gors, hen gartref Kate Roberts.

"Bum yn fy hen gartref fis Mehefin ar ddiwrnod braf. Nid oes to ar y tŷ erbyn hyn, ac mae'n cael ei atgyweirio fel y bydd posib cadw plisgyn y gneuen fel petai. Wrth sefyll ar ganol llawr y gegin, ymrithiai fy holl blentyndod o'm blaen. Nid yma yng Nghae'r Gors y ganed fi, yr oeddwn yn bedair oed pan symudasom yma i fyw. Ond yma y treuliais fy holl blentyndod, yr amser dyfnaf ei argraff ar fywyd pawb."

Kate Roberts

Agorwyd 'Cae'r Gors' Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts gan Megan Williams ei nith ar ddydd Mercher, Mai 16eg, 2007. Cafwyd gair gan Norman Williams, cyflwyniad gan John Ogwen a Maureen Rhys a darlenniad o'i gerdd ar gyfer yr achlysur gan Gwyn Thomas.

Hoffem ddiolch i'n prif arianwyr am ein galluogi i gyflawni ein nod:



www.caergors.org

Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfa Gynladwydd yr Ardoll Agregau, Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol y Cynulliad, Cynulliad Cymru drwy gyfrwng Cronfa Adfywio lleol gan Gyngor Gwynedd a Chynllun Cronfa Wledig, Cwmni Gwastraff Môn/Arfon, Cronfa Cyfarfodydd a Gwarant Amaethyddol Ewrop.

Rydan ni'n dddyledus hefyd wrth gwrs i sawl un am eu gwaith caled:

Y pensaer – Maredudd ap Iestyn, Yr adeiladwr – Jones Bros, Bontnewydd, y cynllun dehongli gan Sian Shakespear a chymorth Phil Stead CC4 a Jack Jackson FBA, Cwmni Delwedd am gynllunio'r Safle Wê, Alan Jô, Stiwdio 23 am bob cymorth gyda'n cyhoeddiadau, Eryl Thomas am y pecyn addysg, Byd

Begw a Hywel Roberts ein Mentor ar ran Cronfa'r Loteri.

Mae hi wedi bod yn ymdrech galed dros ddeng mlynedd a mwy i wireddu breuddwyd. Diolch i Gyfeillion Cae'r Gors, Sharon Owen, ein Swyddog Prosiect, Sian, ein Rheolwraig a Gwenllian hwythau am eu gwaith caled.

Nawr, mae hi i fyny i chwi, bobl Gwynedd a thu hwnt i'n cefnogi er mwyn cadw'r freuddwyd yn fyw.

"Ni welsom erioed gyfoeth, ond cawsom gyfoeth na all neb ei ddwyn oddi arnom, cyfoeth iaith a diwylliant. Ar yr aelwyd gartref y cawsom ef, a'r aelwyd honno yn rhan o'r gymdeithas a ddisgrifiais."

Kate Roberts

race for life

Ar Fai 12ed eleni, bu i ferched Mantell Gwynedd gymryd rhan yn un o'r digwyddiadau codi arian mwyaf i ferched ym Mhrydain sef 'Race for Life'. Roedd y criw yn cael eu noddi i unai rhedeg,

jogio neu gerdded pellter o 5Km er budd apêl elusen Ymchwil Cancr (Cancer Research UK). I gael gwybod mwy am 'Race for Life' ewch i'w gwefan ar :



www.raceforlife.org

Swyddfeydd Mantell Gwynedd

Swyddfa Gofrestredig: 24-26 Stryd Fawr • CAERNARFON • LL55 1RH. ☎ 01286 672626 • 📠 01286 678430
Swyddfa Gofrestredig: Yr Hen Orsaf Heddlu • Y Lawnt • DOLGELLAU • LL40 1SB. ☎ 01341 422575 • 📠 01341 422147
E-bost: ymholiadau@mantellgwynedd.com • Gwefan: www.mantellgwynedd.com

Elusen Gofrestredig: 1068851 • Cwmni Trwy Warant: 3420271 • Cofrestrwyd yng Nghymru
Cyhoeddir MANTELL gan Mantell Gwynedd. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Mantell o angenrheidiol yn adlewyrchu barn Mantell Gwynedd. Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi.



RHAN-ARIENIR Y PROSIECT GAN YR UNDEB EWROPEAIDD
Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewropeaidd

Staff Mantell Gwynedd

CAERNARFON

Prif Swyddog: Bethan Russell Owen

TÎM GWASANAETHAU

Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol: Meir Jones

Swyddog Cymunedau'n Gyntaf: Carys Williams

Hwylusydd Iechyd a Gofal Cym.: Sioned Llwyd Larsen

Swyddog Gwybodaeth: Ann Vaughan Jones

Swyddog Grantiau a Chefnogaeth: Delyth Vaughan

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL

Rheolydd Cyllid a Gweithrediadau: Ceren Williams

Swyddog Gweinyddol: Bronwen Rowlands

Cynorthwy-ydd Gweinyddol: Tracy Lynne Roberts

TÎM BIWRO GWIRFODDOLWYR

Cydllynydd Gwirfoddolwyr: Rhianon Jones

Swyddog Gwirfoddoli: Iola Till

Swyddog Gwirfoddoli Ieuenctid: Mirain Roberts

DOLGELLAU

TÎM GWASANAETHAU

Swyddog Cymunedau'n Gyntaf: Mair Huws

Swyddog Cefnogaeth a Hyfforddiant: Lindsey Ellis

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL

Cynorthwy-ydd Gweinyddol: Beryl Norgrove

TÎM BIWRO GWIRFODDOLWYR

Swyddog Gwirfoddoli: Ann Angharad Fleming

Nodyn gan y

Prif Swyddog...

Mae'r tîm i gyd yma ym Mantell yn 'ricyfro' ar ôl cymryd rhan yn y 'Race for Life' yng Nghaernarfon ar ddydd Sul 13eg Mai. Bu staff swyddfa Caernarfon i gyd yn llwyddiannus yn cwblhau y ras yma gan godi swm sylweddol rhyngom at achos da iawn. Rydym yn bwriadu ymarfer er mwyn 'rhedag go iawn' flwyddyn nes!! Diolch i bawb wnaeth ein noddi.

Rydym yn croesawu aelod newydd o staff i'n plith fis yma sef Mirain Fflur Roberts. Mae Mirain yn hanu o ardal Dyffryn Nantlle a bydd yn gweithio fel Swyddog Gwirfoddoli Ymysg Ieuenctid yn y Ganolfan Wirfoddoli o fewn Mantell. Dyma swydd sydd yn canolbwyntio ar bobl ifanc ardal Gwynedd ac yn eu hannog i wirfoddoli. Mae'r swydd, sydd yn cael ei hariannu gan gronfa Comisiwn Russell ynghyd ag arian o Rwydwaith Dysgu 14-19 Gwynedd, yn dangos y symudiad pendant sydd o fewn y sector at fuddsoddi mewn gwirfoddoli a phobl ifanc. Croesawn Mirain i'n plith yma ym Mantell gan obeithio y bydd yn hapus yn ein mysg.

Isod fe welwch erthygl am ethol aelodau newydd i'r Grŵp Cyswllt/Gweithgorau Craffu'r Cyngor. Hoffwn annog pob darllynydd i enwebu unigolion i weithio fel aelodau/cynrychiolwyr i'r sector. Mae yma gyfle ardderchog i ni uchafu mewnbyn y sector i drafodaethau y Cyngor ar lefel strategol bwysig. Felly os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn cyfrannu neu os wyddoch chi am rywun arall fyddai efo diddordeb yna gofawch eich bod yn enwebu/cynnig.

A dyna ni, am fod lle yn brin y tro yma, a 'Mantell' yn llawnach nag afer dyma gadw fy mhwt yn fyr. Mwynhewch y newyddlen gan obeithio y cewch wybodaeth o fudd i chi neu eich mudiad ynddo.

Tan Tro Nesa,

Bethan



ETHOL AELODAU NEWYDD I'R

Grwp Cyswllt / Gweithgorau Craffu'r Cyngor

Mae'r amser wedi dod eto i ethol 7 aelod newydd i'r Grwp Cyswllt rhwng y Sector Wirfoddol a Chyngor Gwynedd. Am y tro cyntaf eleni bydd cyfle i aelodau Grwp Cyswllt hefyd gymryd rhan yng Ngweithgorau Gwella Pwyllgorau Craffu'r Cyngor. 'Rydym yn awyddus i uchafu mewnbyn y sector i drafodaethau y Cyngor ac yn arbennig felly i'r gwaith manwl a wneir yn y Gweithgorau Gwella.

Rydym felly'n chwilio am bobl sydd yn barod i gynrychioli'r sector wirfoddol ac i graffu'r maesydd canlynol:

● Gofal

Syn cynnwys tai a digartrefedd, gofal am henoed, anabled, iechyd meddwl, hawliau lles a gofalwyr
- o leiaf 2 gynrychiolydd

● Amgylchedd

Syn cynnwys cynllunio, gwastraff, cludiant a'r amgylchedd
- o leiaf 1 cynrychiolydd

● Datblygu

Syn cynnwys economi ac adfywio, dysgu gydol oes, celfyddydau, amgueddfeydd a chwaraeon
- o leiaf 2 gynrychiolydd

● Plant a Phobl Ifanc

Syn cynnwys gwaith cymdeithasol plant, addysg a ieuenctid
- o leiaf 1 cynrychiolydd

● Adnoddau

Eiddo, gwarchod y cyhoedd, trwyddedu, e.lywodraeth, caffael
- o leiaf 1 cynrychiolydd

Ni fyddai disgwyl i'r cynrychiolwyr fynychu y Pwyllgorau Craffu yn rheolaidd ond dyma gyfle i roi mewnbyn i'r Gweithgorau Gwella (ble mae y gwaith trin a thrafod manwl yn digwydd). Bydd y cynrychiolydd sector gwirfoddol yn dyst arbenigol ac yn gallu rhoi mewnbyn / tystiolaeth am y mater dan ystyriaeth.

Gobeithiwn y bydd trefniant o'r math yma yn galluogi'r Sector i gynnig mewnbyn arbenigol i drafodaethau manwl y Cyngor a'r ddechrau'r broses gynllunio. Bydd hyfforddiant a lwfans teithio ar gael ar gyfer y gwaith yma.

Cefnogaeth i Wirfoddolwyr Ifanc - Croeso i Mirain

Mae Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd pob amser yn chwilio am wirfoddolwyr o bob ystod oed, ond maes sydd yn prysur ddatblygu yw gwirfoddoli ymysg pobl ifanc. Mae'r buddiannau o wirfoddoli i bobl ifanc a'r mudiadau maent yn eu cefnogi yn amhrisiadwy.

Mae Mirain Roberts wedi cael ei phenodi, yn ddiweddar, fel Swyddog Gwirfoddoli Ymysg Ieuencid gyda Mantell Gwynedd er mwyn datblygu gwirfoddoli ymysg ieuencid, a rhoi gwybodaeth am y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael i bobl ifanc yng Ngwynedd.

"Dwi'n edrych ymlaen at gael chwilio am gyfleoedd newydd i bobl ifanc ac iddynt hwy weld y gwerth mewn gwirfoddoli. Mae'n fuddiol iawn i'r person ifanc gael profiadau newydd a dod i deimlo eu bod yn gwneud gwahaniaeth."

Bydd Mirain ar gael i hyrwyddo gwirfoddoli ymysg ieuencid, i roi



arweiniad a chefnogaeth i bobl ifanc sydd yn meddwl gwirfoddoli neu sydd yn barod yn rhoi eu hamser i wirfoddoli.

Yn ystod y cyfarfod nesaf o **Rwydwaith Gwirfoddolwyr Gwynedd**, ein thema fydd y datblygiadau diweddaraf ym maes gwirfoddoli ymysg ieuencid. **Cynhelir y cyfarfod ar 22ain o Fai, yng Ngwesty'r Celt yng Nghaernarfon am 10.00am.** Croesewir Leah Doherty (CGGC), - Cynllun Gwirfoddolwr y Mileniwm, Judith Bevan - Swyddfa'r Cynulliad, a Catrin James - Urdd Gobaith Cymru.

Ydych chi'n siarad Cymraeg?

Mae Home Start Bangor yn awyddus i gael mwy o gynorthwywyr dwyieithog i ymuno â'r tim, gan fod rhai o'r teuluoedd a gefnogir yn deuluoedd Cymraeg eu hiaith.

Mae Home-Start Bangor hefyd yn chwilio am bobl i fod yn ymddiriedolwyr. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am gynghori a chyfarwyddo'r cynllun a'r staff er budd y teuluoedd a'r rhai sy'n cynorthwyo, gan sicrhau bod yr adnoddau o fewn yr elusen yn cael eu defnyddio yn effeithiol. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl sydd â phrofiad o godi arian, materion cyllid, materion cyfreithiol,

rheoli busnes a rheoli pobl er mwyn cwblhau'r tim ymroddedig.

Os ydych yn teimlo y gallech wneud gwahaniaeth i deulu yn ardal Bangor, gan gyfrannu i'ch bro ar yr un pryd, yna ffoniwch ni ar: **01248 672673** neu e-bostio ar:

info@home-start-bangor.com.

Edrychwn ymlaen at eich galwad!


Mae Home-Start Bangor yma i gynig cefnogaeth, cymorth ymarferol a chyfeillgarwch i deuluoedd yn ystod adegau o bwysau a straen.



Ystafelloedd i'w Llogi

Mae gan **Cil De Gwynedd** ym Mhorthmadog Ystafell Gynhadledda i'w hurio allan i fudiadau am bris cystadleuol o £20 fesul hanner diwrnod - bore neu brynhawn.

Hefyd ar gael mae ystafell Dechnoleg Gwybodaeth sydd yn cynnwys hyd at 10 cyfrifiadur am £45 y dydd. Am fwy o wybodaeth cysylltwch a Diane Durant ar **01766 514249**



Prince's Trust CYMRU

Roedd gan Prince's Trust Cymru raglen yn Nghaernarfon ym mis Mai, ac ym Mangor yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Maent yn chwilio am brosiectau i roi cyfle i bobl ifanc i gael gwneud gwahaniaeth.

Os oes gan eich grŵp neu eich mudiad chi waith o baentio'r neuadd/swyddfa, chwynnu'r ardd, tacluso safle neu unrhyw brosiect a fuasai'n ddefnyddiol i grŵp o bobl ifanc gael cyfle i gyd-weithio - cysylltwch â Kerri Yale ar 07764 960085.

Hwylusydd Tai Gwledig

Mae tai fforddiadwy ar fin cael eu hadeiladu yn Nyffryn Ardudwy a Llanuwchllyn ac mae llawer o'r diolch i Arfon Hughes y Swyddog Tai Fforddiadwy. Yn ddiweddar cynhaliodd Mantell werthusiad o'r cynllun Hwylusydd Tai Gwledig ac roedd y Cynghorau Cymuned sy'n rhan allweddol o'r cynllunio yn fawr eu diolch i'r gwaith sy'n digwydd. Y gobaith yw y gall y cynllun barhau ac y bydd yn fodd i ddiwallu anghenion tai mewn ardaloedd eraill yn fuan. Mae'r cynllun yn ffrwyth cyd-weithio rhwng Cymdeithasau Tai Clwyd ac Eryri, y Cyngor, Parc Cenedlaethol Eryri, y Comisiwn Codwigaeth a Mantell Gwynedd. Cyswllt am fwy o wybodaeth Arfon Hughes: 01766 833018

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **17eg Awst, 2007**. Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at Beryl Norgrove yn swyddfa Dolgellau:

beryl@mantellgwynedd.com • Ffôn: 01341 422575

YMDDIRIEDOLAETH MORGAN

'gwneud gwahaniaeth'

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ehangu eu rhaglen rhoi-grantiau i £1miliwn y flwyddyn ac yn cefnogi elusennau ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn arbenigo mewn cefnogi mudiadau sy'n cynorthwyo a chefnogi plant a'u teuluoedd gan gynnwys cefnogi gwaith sy'n cael effaith positif ar eu llês sy'n ehangu cyfleoedd a dewisiadau bywyd ar gyfer pobl ifanc.

Yn y gorffennol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cefnogi gwaith sy'n ymwneud â

anableddau dysgu a chorfforol, salwch meddwl a chorfforol, amddifadedd a her gymdeithasol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn fodlon cysidro cefnogi elusennau i gwrdd ag anghenion eraill ar yr amod eu bod yn cwrdd â phrif nod yr Ymddiriedolaeth o fod yn gallu 'gwneud gwahaniaeth'.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.morganfoundation.co.uk, neu am sgwrs anffurfiol cysylltwch â Jane Harris ar 01829 782 800

Ymddiriedolaeth

Clare Duffield

Celfyddydau Perfformio

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig grantiau i elusennau cofrestredig, ysgolion, grwpiau gwirfoddol a mudiadau celfyddydol proffesiynol ac amaturaid yn y DU ar gyfer prosiectau sy'n darparu cyfleoedd i bobl ifanc oedran 0-18oed yn y maes addysg celfyddydau perfformio.

Mae grantiau rhwng £1,000 a £10,000 ar gael ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig â chelfyddydau perf-

formio. Mae'r cyllid ar gael ar gyfer prosiectau newydd yn hytrach na phrosiectau sy'n bodoli eisoes.

Y dyddiad cau ar gyfer ail rownd 2007 yw **12fed, Medi, 2007**. Mae'r ffurflen gais ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth - www.clare-duffield.org.uk neu cysylltwch â nhw ar (0207) 351 6061



CIST Gymunedol

SPORTLOT Gwynedd

Mae'r Gist Gymunedol yn gynllun cymorth grant gan Gyngor Chwaraeon Cymru a ariennir gan y Gronfa Loteri.

Fe'i cynlluniwyd i annog pobl i wneud mwy o weithgareddau corfforol. Yr uchafswm grant a ddyferir yw £1000 a gellir ei ddefnyddio i gefnogi nifer o gynlluniau, gan gynnwys:

- prosiectau cerdded neu seiclo

- prosiectau sy'n annog gweithwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol
- prosiectau sy'n annog gweithgareddau corfforol yn yr amgylchedd naturiol
- recriwtio a datblygu gwirfoddolwyr, arweinwyr a hyfforddwyr

Am becyn cais cysylltwch â: **Jane Eade ar (01758) 704010**

Cynllun Grantiau
'Gadewch i ni gerdded Cymru'

Cynllun i Gymru gyfan yw 'Gadewch i ni Gerdded Cymru' gyda'r nod o gynyddu nifer y bobl sy'n cerdded fel gweithgarwch rheolaidd er budd eu hiechyd. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar dargedu pobl sy'n segur a'r nod yw ehangu rhaglenni teithiau cerdded traddodiadol er budd iechyd - bydd y grant yn cefnogi'r rhain ond hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu prosiectau sy'n cynnig mwy o gyfleoedd. Rhoddir grantiau gwerth hyd at £10,000 y flwyddyn. Mae'n bosibl gwneud cais am grant mwy gwerth £30,000 os yw'r cais ar gyfer prosiect sawl-elfen. Y dyddiad cau ar gyfer ail rownd y cyllido yw dechrau mis Tachwedd 2007, gyda grantiau'n cael eu dyfarnu ym mis Ionawr 2008.

I gael rhagor o wybodaeth, holwch eich Uwch Swyddog Cymdeithas Fyw: Gogledd 08450 450908 neu Shana Thomas, Uwch Swyddog Cerdded ar 08450 450906 neu shana.thomas@scw.co.uk

Galluogi Gwynedd

2007 - 2008

Mae cronfa Galluogi Gwynedd ar fin dirwyn i ben am y tro a chydig iawn o gyllid sy'n weddill ar gyfer ceisiadau o dan **£1,000 yn unig**. Mae posibl gwneud cais am gyllid o dan £1,000 ar unrhyw adeg - does dim dyddiad cau penodol. Felly cyntaf i'r felin...

Am becyn cais neu i drafod unrhyw brosiect a allai fod yn gymwys cysylltwch â Delyth Vaughan ar 01286 672 626 neu delyth@mantellgwynedd.com

Grant Cymorth Plant dan 11oed

2007 - 08

Mae'r gronfa hon ar gyfer cynnig cefnogaeth i grwpiau sy'n darparu gwasanaeth gofal ac addysg ar gyfer plant dan 11 oed. Cronfa flynyddol yw Grant Cymorth Plant dan 11 oed sy'n cefnogi Cylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi, Grwpiau PPA ac ati. Gellir gwneud cais am hyd at £500 o arian cyfalaf a £500 o arian refeniw. Dyddiad cau ar gyfer eleni yw **dydd Gwener, Mehefin 15fed, 2007 am 5.00pm**. Am becyn cais neu fanylion pellach cysylltwch â Delyth Vaughan, Swyddog Grantiau a Cefnogaeth ar **01286 672 626** neu delyth@mantellgwynedd.com

Digwyddiadau a drefnwyd yn ddiweddar

Hyfforddiant Cymorth Cyntaf i Wirfoddolwyr Ifanc Caernarfon, 16eg Chwefror



Gweithdy Gwirfoddoli gyda Adam May Porthmadog, 16eg Mawrth

'Creu cyfleoedd gwerth chweil ar gyfer gwirfoddolwyr'.

Mae Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddoli Gwynedd yn cyfarfod yn rheolaidd tair gwaith y flwyddyn. Ar gyfer y cyfarfod cyntaf eleni trefnwyd gweithdy dan arweiniad Adam May o dan y pennawd 'Creu cyfleoedd gwerth chweil ar gyfer gwirfoddolwyr'. Nod y bore oedd cynorthwyo mudiadau i ddenu, cadw ac i ysgogi gwirfoddolwyr.

Yn ystod y bore trafodwyd:

- i) 'Rôl Ddisgrifiadau' ar gyfer gwirfoddolwyr.
- ii) Ysgogi Gwirfoddolwyr - Yn fras, gwelir fod pobl yn cael eu hysgogi yn bennaf gan:
 - y syniad o berthyn
 - ymreolaeth neur awydd i fod yn annibynnol
 - gyflawniad - yr awydd i gyflawni rhywbeth y maent yn falch ohono
- iii) Ehangu a chyfoethogi rôl gwirfoddolwyr. Un ffordd ddefnyddiol o wneud hyn yw rhoi cyfle i'r gwirfoddolwr ddatblygu a chyfrannu i'w rôl ddisgrifiad ei hun.
- iv) Y newid mewn patrymau gwirfoddoli. Erbyn hyn mae nifer cynyddol o bobl eisiau gwirfoddoli am gyfnod penodol, ar brosiect arbennig yn hytrach nag ymrwymo am gyfnod agored / parhaol.

Mae angen i'r rheolwr gwirfoddolwr llwyddi-

annus fod yn ymwybodol o'r pwyntiau a nodir, a gallu cynnig cyfleoedd sydd yn addas ar gyfer gofynion y gwirfoddolwr.

Daeth 15 cynrychiolydd i'r gweithdy, ac roedd pawb yn teimlo eu bod wedi cael bore addysgiadol a buddiol iawn yng nghwmni Adam May.

Gweithio Fel Un Bermo, 22ain Mawrth



Mewn cyd-weithrediad agos â Chymunedau'n Gyntaf y Bermo, cynhaliwyd 'Gweithio Fel Un' bore lau, Mawrth 22ain, yn Theatr y Ddraig yn y dref. Daeth chwe mudiad i rannu gwybodaeth am eu gwaith, ond yn anffodus, siomedig oedd ymateb y cyhoedd.

Os oes rhywun na allodd fanteisio ar y cyfle i fynychu'r digwyddiad, ac yn teimlo fel rhoi help llaw - cofiwch fod eich Biwro Gwirfoddolwyr lleol a'r gael i'ch cynorthwyo drwy'r flwyddyn -mae croeso i chi gysylltu â ni - ffoniwch 01341 422 575 neu 01286 672626.

Hyfforddiant i Wirfoddolwyr 'Datblygu Sgiliau Datrys Problemau' Caernarfon, 11eg Mai

Cymeradwyaeth gref a gafodd Dr Ioan Rees ar ddiwedd diwrnod gwerth chweil gyda pawb a fynychodd wedi mwynhau dysgu sgiliau gwrando er eu budd eu hunain ac eraill. Roedd y cwrs wedi ei gyflwyno mewn ffordd hamddenol ac hwyliog. "Fe wnes fwynhau y cwrs yn fawr a dysgu llawer i'm helpu yn y dyfodol" oedd geiriau un a fynychodd.

Wythnos Gwirfoddolwyr 2007

1af - 7fed Mehefin

Erbyn hyn, mae Wythnos Gwirfoddolwyr wedi hen ennill ei phlwyf yng nghalendr y Trydydd Sector, ac erbyn bod y rhifyn yma o Mantell yn eich cyrraedd, byddwn wedi dathlu y 23ain 'Wythnos Gwirfoddolwyr'. Yn flynyddol, tri nod pwysig sydd i'r wythnos sef:

- ◆ Cydnabod
- ◆ Gwobrwyo
- ◆ Recriwtio Gwirfoddolwyr

Yng Ngwynedd, bu i staff y Biwro:

- Osod stondin wybodaeth ar y stryd yn Nolgellau, Bangor a Phyllheli yn ystod yr wythnos i ddenu cyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth o wirfoddoli yn gyffredinol.
- Gynnal 'Te Dathlu a Diolch' yn Oriol Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog, dydd lau, 7fed o Fehefin.
- Ymweld â mudiadau sydd yn cynnwys gwirfoddolwyr yn eu gweithgareddau er mwyn cryfhau cysylltiadau a diweddarau gwybodaeth.

Edrychwn ymlaen at gyhoeddi lluniau'r wythnos yn y rhifyn nesaf!!

Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2007

Yn ystod y 'Te Dathlu a Diolch' cyflwynwyd tystysgrifau 'Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru' 2007 i wirfoddolwyr ffyddlon a enwebwyd o Wynedd sef:

- Manon Evans
- Xanthe Larcombe
- Laurence Charles Mort
- Griff Roberts
- Gwenfor Roberts
- Harold Toone

Yn y categori ar gyfer grwpiau cafodd Cyswllt - Cymdeithas Plant Byddar eu henwebu.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd!

Dyddiad i'r Dyddiadur - FFAIR WIRFODDOLI

Dewch yn llu i'r Ganolfan ym Mhorthmadog, dydd Gwener, 28ain Medi.

GWAHODDIR MUDIADAU I DDOD Â STONDINAU GWYBODAETH !

Bydd croeso cynnes i'r cyhoedd i alw hebio unrhyw adeg rhwng 10.30am a 3.30pm.

Hyfforddiant Mantell i ddod:

MEHEFIN 2007

Neuaddau Pentref a TAW

8ed Mehefin

9.30y.b. - 11.30y.b.

Ystafell Hyfforddiant, Mantell Gwynedd, Caernarfon

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Hyfforddwr: David Ormesher

Ydych chi ar Bwyllgor Neuadd Bentref? Ydych chi'n gwneud gwaith adeiladu ar y Neuadd? Ydych chi'n ail wneud eich Neuadd? Wedi eich drysu gyda TAW?

Dyma sesiwn gwybodaeth am holl faterion TAW yn ymwneud â Neuaddau Pentref. Dyma gyfle i'ch cwestiynau chi gael eu hateb gan arbenigwr ar TAW.

Materion TAW sy'n wynebu mudiadau gwirfoddol Mehefin: Amser a lleoliad i'w cadarnhau

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Hyfforddwr: David Ormesher

Oes gennych ddi-ddordeb mewn mynychu sesiwn gwybodaeth yn trafod y materion TAW sy'n wynebu mudiadau gwirfoddol? Oes gennych faterion penodol yr hoffech ofyn i arbenigwr TAW amdanynt? Os felly, dyma yw'r sesiwn i chi fynychu.

Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr

26ain Mehefin

10.00y.b. - 4.00y.p.

Plas Tan y Bwlch, Maentwrog

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Hyfforddwraig: Bethan Russell Owen

Ydych chi'n YMDDIRIEDOLWR neu ar fin sefyll fel ymddiriedolwr?

Dyma gwrs fydd yn edrych ar gyfrifoldebau ac oblygiadau bod yn ymddiriedolwr yn ogystal ag edrych ar 'Beth sydd yn gwneud ymddiriedolwr da?'

Rhoir sylw i beth all ddigwydd os fydd pethau yn mynd o'u lle mewn mudiad ble mae gennych gyfrifoldebau.

Am fwy o fanylion am yr uchod cysylltwch â Lindsey Ellis, Swyddog Hyfforddiant, Mantell Gwynedd, Yr Hen Orsaf Heddlu, Y Lawnt, Dolgellau.
Ffôn: 01341 422575



FFAIR ARIANWYR

Chwilio am arian?

Beth am alw draw i gael sgwrs anffurfiol gyda'r ariannwyr:

Plant mewn Angen • Y Loteri Fawr

Noson Allan • Galluogi Gwynedd

Institiwt Codi Arian • Cyngor Gwynedd

Mantell Gwynedd

Hefyd:

CYD-GYFARFOD SECTOR WIRFODDOL

Cyfle i fudiadau rwydweithio a thrafod sut mae nhw'n cael eu cynrychioli ar bartneriaethau strategol yng Ngwynedd - 10.00 y bore

yn ogystal â:

Lansio Gwefan Newydd Mantell Gwynedd

Hyn oll yng

Nghanolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog

Dydd Mawrth, Gorffennaf 10fed

10.00y.b. - 3.30y.p.

Hyfforddiant a Digwyddiadau CGGC

Hyfforddiant - Grantiau - Addas ar gyfer cyllido

Dydd Iau, 12 Gorffennaf, 2007

Lleoliad: Llandudno

Cost: £10

Bydd y cwrs yn edrych ar bob agwedd ar baratoi cais am gyllid a bydd yn dangos, mewn ffordd ymarferol, y ffynonellau mwyaf priodol o gyllid ar gyfer eich mudiad chi. Bydd y cwrs hefyd yn rhoi darlun o'r hinsawdd cyllido ar hyn o bryd yng Nghymru ac yn eich helpu i ddeall beth sy'n dylanwadu ar gyllidwyr.

Hyfforddiant - Ennill Arian

Dydd Iau, 13 Medi, 2007

Lleoliad: Rhuthun

Cost: £10

Bwriad y cwrs hwn yw rhoi darlun cyffredinol o'r llwybrau sydd ynghlwm wrth ddatblygu syniad ar gyfer cynhyrchu incwm. Anelir y cwrs at y rhai sydd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol a chodi arian.

Cynhadledd - Gwirfoddolwyr a'r gyfraith

Dydd Iau, 13 Medi, 2007

10am - 4pm

Lleoliad: Canolfan Gelfyddydau'r Glannau, Casnewydd

Ffioedd y gynhadledd (gan gynnwys TAW)

£70 Mudiadau gwirfoddol; £80 Eraill

Mae'r gynhadledd yn gyfle i gael y wybodaeth ddiweddaraf am agweddau ar y gyfraith sy'n effeithio ar wirfoddolwyr, ac i drafod y goblygiadau i'n harferion gwaith.

Mae'r gynhadledd wedi ei hanelu at reolwyr gwirfoddolwyr a phobl eraill sydd â diddordeb yn y gwaith o reoli a datblygu rhaglenni gwirfoddolwyr.

Bydd y diwrnod hefyd yn werthfawr i ymddiriedolwyr sydd eisiau dysgu mwy am eu cyfrifoldebau tuag at wirfoddolwyr.

Trefnir pedwar gweithdy ar gyfer y diwrnod a chaiff cynhadleddwyr y cyfle i gymryd rhan mewn unrhyw ddau ohonynt.

Am fwy o wybodaeth ynghylch hyfforddiant CGGC ewch i www.wcva.org.uk/training neu e-bostiwch training@wcva.org.uk
Am fwy o wybodaeth ynghylch digwyddiadau CGGC cysylltwch â Mel Knights ar: Ffôn: 029 2043 1724, Ffacs: 029 2043 1701 neu e-bost: ventsadmin@wcva.org.uk

Sefydlu Grŵp Ar Gyfer Cyflyrau Tymor Hir yn Ne Gwynedd

Cynhelir cyfarfod yng **Nghanolfan Hamdden Glan Wnion yn Nolgellau ar Ddydd Llun Mehefin 11 am 10:30am tan 12:30pm** i drafod sefydlu grŵp/cynghrair ar gyfer mudiadau, gofalwyr a grwpiau defnyddwyr sy'n gweithio ac yn ymwneud â chyflyrau tymor hir yn Ne Gwynedd. Bwriad y cyfarfod yw trafod ac ystyried sut y gall pobl sy'n ymwneud â'r maes mewn unrhyw ffordd gydweithio, rhannu

adnoddau ayb. Mae Cynghrair eisoes wedi ei sefydlu ar gyfer Ynys Môn a Gogledd Gwynedd ac mae'n bwysig bod De'r Sir hefyd yn cael cyfle i sicrhau llais.

Croeso cynnes iawn i unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes - bydd lluniaeth yn dilyn y cyfarfod.

Am fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â Sioned ym Mantell Gwynedd ar: 01286 672626.

cyhoeddiadau diweddar

Adroddiad Dementia UK:

Mae Cymdeithas Alzheimers yn ddiweddar wedi cyhoeddi Adroddiad 'Dementia UK': adroddiad sy'n amlinellu amlder a chost dementia, ac mae'n astudiaeth helaeth o effaith gymdeithasol ac economaidd dementia yn y DU. Dengys yr adroddiad y bydd nifer y bobl â dementia'n cynyddu'n sylweddol wrth i'r boblogaeth heneiddio. Ar hyn o bryd, mae dementia'n costio £17 biliwn y flwyddyn i'r DU.

I gael mwy o wybodaeth a chopi o'r adroddiad ewch ar wefan y Gymdeithas Alzheimers ar y linc yma: [www.alhttp://www.alzheimers.org.uk/News_and_Campaigns/Campaigning/PDF/Dementia_UK_Summary.pdf](http://www.alzheimers.org.uk/News_and_Campaigns/Campaigning/PDF/Dementia_UK_Summary.pdf)

Hysbysiad Hyfforddiant

Hyfforddiant Parhad Busnes

Dydd Llun, 18 Mehefin 2007 - 10:00am-12:00pm

Plas Menai, Caernarfon *neu*

Dydd Mawrth, 19 Mehefin 2007 - 10:00am-12:00pm

Canolfan Hamdden Glan Wnion, Dolgellau

Pwrpas y Sesiwn:

Bydd y sesiwn yma yn helpu mudiadau i **gynllunio ac ymateb** i ddigwyddiadau na ellir delio â nhw fel rhan o weithgaredd bob dydd arferol. Mae digwyddiadau fel dim trydan, llifogydd neu ladrad yn effeithio ar un busnes ond mae digwyddiadau rhanbarthol neu genedlaethol fel **streic neu bandemig Fflw** yn ei gwneud hi'n angenrheidiol i bob sector a sefydliad gydweithio i sicrhau parhad mewn gwasanaethau hanfodol.

Bydd y cwrs hwn yn cynorthwyo sefydliadau i **ganfod risg a llunio eu cynlluniau**. Bydd yn gyfle da i **rannu profiadau a phryderon** ac i drafod sut y gallwn weithio efo'n gilydd pe byddai sefyllfa argyfyngus yn digwydd yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

I archebu lle cysylltwch â Sioned ym Mantell Gwynedd ar 01286 672626

Bydd y sesiwn yn gorffen am 12:15 a bydd lluniaeth ar gael.

Rhaglen y Claf Arbenigol - Ardal Porthmadog

'Dull newydd ar gyfer hunan-reoli i bobl â chyflwr iechyd tymor-hir'

Lleoliad: Porthmadog Arts Centre, Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd LL49 9LU

Amser: Dydd Gwener 13.00 - 16.30

Dyddiadau: 8/6/07, 15/6/07, 22/6/07, 29/6/07, 6/7/07, 13/7/07

Cynhelir y cwrs am chwech wythnos yn olynol:

Am fwy o wybodaeth ffoniwch **01286 674236**

Cynhadledd

Cyswllt@Iechyd 2007, 20 - 21 Mehefin 2007

Lleoliad: Gwesty Holland House, Caerdydd

Themâu'r flwyddyn yma:

- Dulliau gweithio
- Mynd i'r afael â materion o bwys ar y cyd
- Strategaethau lleol: Deilliannau go iawn

- Deddfau newydd: Cyfleodd newydd

I gadw lle, cofrestrwch ar wefan www.ssiacymru.org.uk/c4hbookingform neu cysylltwch ag Ashley Gould ar: ashley.gould@wlga.gov.uk



Prosiect MANTAIS

Cyllidir prosiect Mantais yn bennaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gydag arian cyfatebol o Gronfeydd Strwythurol Ewrop. Ei amcan yw i ymrwymo pobl ifanc Gogledd Cymru, sydd yn ôl rhaglen Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth Cymru, y rhai mwyaf difreintiedig.

Bydd y prosiect yn cynnig y cyfle i bobl ifanc rhwng 16 a 24 mlwydd oed gymryd rhan mewn rhaglenni amgylcheddol, datblygiad personol, cymunedol ac actifedd fydd yn gwella eu mynediad i addysg a gwaith. Bydd hefyd yn cynnig cymhwyster awyr agored i weithwyr ieuentid a gwirfoddolwyr.

Bydd modd i bawb sydd yn rhan o'r prosiect newydd ennill sgiliau gwerthfawr heb hyd yn oed sylweddoli. Mae rhain yn cynnwys cymwys-terau awyr agored, cymdeithasol a thechnegol fydd yn uchafu eu siawns o gael gwaith mae'r cyfranogwyr eisiau.

Dyma rai o'r gweithgareddau a'r sialensiau fydd ar gael:

- Beicio Mynydd
- Dringo
- Canwio
- Cerdded Ceunentydd
- Cwrs Rhaffau Uchel
- Abseilio
- Canwio Môr

Bydd Prosiect Mantais yn cynnig i'r cyfranogwyr y cyfle i wneud gwahaniaeth i gymunedau drwy eu hegri a'u syniadau.

Felly os ydych chi rhwng 16 a 24 mlwydd oed ac yn awyddus i gymryd rhan ym Mhrosiect Mantais, mae modd i chwi gysylltu â'ch Cydlynnydd Cymunedau'n Gyntaf yn eich ardal chi. Os nad ydych yn siwr pwy yw hwn/hon, cysylltwch â Thim Outlook Cymunedol ar 01286 871888 neu drwy e-bostio info@outlookcommunity.com

Pwysig! Gwraidd - y diwedd araf!

Bydd cynllun Gwraidd ar gyfer grwpiau cymunedol newydd a rhai sy'n datblygu'n dod i ben yn ystod 2007. Rhaid gwario'r holl arian a ddsbarthwyd yn y cynllun erbyn mis Mehefin 2008, felly rhaid derbyn pob cais yn 2007. Rydym yn ystyried newid rhai pethau er mwyn sicrhau bod grwpiau bach yn gallu cael y budd mwyaf o'r gronfa hon, sydd wedi dod yn gynyddol boblogaidd wrth i fwy a mwy o grwpiau a phartneriaethau glywed

amdani, ac fe rown wybod i chi am y rhain cyn gynted ag y bo modd drwy gyfrwng y bwletin a'r wefan. Mae rhai ardaloedd sy'n gymwys heb wneud cais i'r cynllun o gwbl eto, felly gwnewch yn siwr nad yw'r grwpiau yn eich ardaloedd chi'n colli cyfle!

Cysylltwch â llinell gymorth Cymunedau'n Gyntaf i gael rhagor o wybodaeth ar 0800 5878898 neu anfonwch e-bost: enquiries@communitiesfirst.info.

Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau'n Gyntaf

O Ebrill 1af mae Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau'n Gyntaf wedi ail agor ar gyfer ceisiadau oddi wrth grwpiau a mudiadau gwirfoddol yn y saith ward Cymunedau'n Gyntaf yng Ngwynedd.

Nod y gronfa yw cefnogi unrhyw fath o weithgaredd sy'n cynnwys pobl leol drwy gyfrwng mudiadau cymunedol bach sy'n rhoi budd i'w cymuned.

Am fwy o wybodaeth ac i weld a yw eich grŵp/mudiad chi yn gymwys i wneud cais neu i dderbyn pecyn cais cysylltwch â Llinell Gymorth Cymunedau'n Gyntaf ar 0800 587 8898 neu ewch i www.communitiesfirst.info neu gellir cysylltu a'ch Cydlynnydd leol:

Ward Marchog (Bangor)

Paul Hockaday
paul@marchog.fslife.co.uk
Ffôn: 01248 362311

Ward Peblig

Carol Evans
carole@taieryri.co.uk
Ffôn: 01286 677024

Ward Talysarn a Nantlle
Dafydd Williams (Antur Nantlle)
dafyddtalysarn@yahoo.co.uk
Ffôn: 01286 881103

Ward De Pwllheli
Glenys Lloyd Williams
glenyslloydwilliams@gwynedd.gov.uk
Ffôn: 01758 701685

Ward Bowydd a Rhiw (Blaenau)
Leah Pitts
LeahPitts@gwynedd.gov.uk
Ffôn: 01766 832 214

Ward Y Bermo
Martin Williams
martinwilliams@gwynedd.gov.uk
Ffôn: 01341 280 979

**Pen Llŷn - Wardiau
Aberdaron, Botwnnog a
Thudweiliog**
Rhys Evans
rhysevans@gwynedd.gov.uk
Ffôn: 01758 730 309

**Y dyddiad olaf i dderbyn
cais yn y flwyddyn ariannol
yma fydd 31ain Ionawr 2008.**